

Rhif: WG13859



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

Cymhorthion a gwasanaethau ategol i blant anabl

Dyddiad cyhoeddi: **11 Tachwedd 2011**
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn **3 Chwefror 2012**

Cymhorthion a gwasanaethau ategol i blant anabl

- Trosolwg** Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn ceisio barn am gychwyn y ddarpariaeth sydd yn Neddf Cydraddoldeb 2010, sy'n gosod dyletswydd ar ysgolion ac awdurdodau lleol i ddarparu cymhorthion ategol yn rhan o'u dyletswydd i wneud addasiadau rhesymol ar gyfer plant anabl.
- Sut i ymateb** Mae ffurflen ymateb yr ymgynghoriad ar gael i'w llenwi ar www.cymru.gov.uk/ymgyngghori
Dylid e-bostio/postio ymatebion i'r ymgynghoriad hwn i'r cyfeiriad isod gan sicrhau eu bod yn cyrraedd erbyn **3 Chwefror 2012** fan bellaf.
- Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.
Mae'r ddogfen ymgynghori ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk/ymgyngghori
- Manylion cysylltu** I gael rhagor o wybodaeth:
Y Gangen Anghenion Dysgu Ychwanegol
Yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr
Yr Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 029 2082 3003
Ffacs: 029 2080 1044
e-bost: AdditionalLearningNeedsBranch@cymru.gsi.gov.uk

Diogelu data Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni.

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

Cynnwys

Rhagair	1
Y ddyletswydd newydd i ddarparu cymhorthion a gwasanaethau ategol	2

Rhagair

1. Cafodd y Ddeddf Cydraddoldeb ["Deddf 2010"] Gydsyniad Brenhinol ar 8 Ebrill 2010. Mae gan y Ddeddf ddau brif bwrpas – cysoni cyfraith ym maes gwahaniaethu, a chryfhau'r gyfraith er mwyn hybu cynnydd o ran cydraddoldeb. Mae Deddf 2010 yn atgyfnerthu llawer o ddeddfiadau perthnasol gan gynnwys Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995.
2. Roedd y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd wedi'i diwygio gan Ddeddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2001 er mwyn gwahardd ysgolion ac awdurdodau lleol rhag gwahaniaethu yn erbyn plant anabl o safbwynt materion sy'n ymwneud â threfniadau derbyn plant, eithrio plant a darparu addysg a gwasanaethau cysylltiedig, ac er mwyn eu gorfodi i wneud addasiadau rhesymol i atal gwahaniaethu o'r fath. Fodd bynnag, cafodd ysgolion ac awdurdodau lleol eu heithrio bryd hynny rhag gwneud addasiadau rhesymol sy'n ymwneud â chymhorthion ategol, am y rheswm y byddai cymhorthion ategol yn cael eu darparu eisoes drwy ddatganiadau anghenion addysgol arbennig (AAA) a thrwy ddyletswyddau ysgolion ac awdurdodau lleol dan y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd i gynllunio i gynyddu mynediad i ysgolion a'r cwricwlwm.
3. Mewn ymateb i argymhelliad a wnaed i Lywodraeth y DU yn Ymchwiliad Lamb i hyder rhieni yn y system AAA (adroddiad dyddiedig 16 Rhagfyr 2009), gwnaed darpariaeth yn y Ddeddf fel na fyddai ysgolion ac awdurdodau lleol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban yn cael eu heithrio mwyach rhag y gofyniad i ddarparu cymhorthion neu wasanaethau ategol (yn ôl adran 20 (11) y Ddeddf, mae *cymhorthion ategol* yn cynnwys gwasanaethau ategol) yn rhan o'u dyletswydd i wneud addasiadau rhesymol.
4. Fodd bynnag ni ddaeth y ddyletswydd newydd hon ar ysgolion ac awdurdodau lleol, sef y ddyletswydd i ddarparu cymhorthion ategol yn rhan o'r ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol, i rym ar yr un pryd â'r rhan fwyaf o weddill Deddf 2010 ar 1 Hydref 2010.
5. Mae'r ymgynghoriad yn ceisio ymatebion ynghylch dau fater – yn gyntaf, y dyddiad y dylai'r ddyletswydd newydd ddod i rym, gan gynnwys yr angen i ystyried a oes unrhyw resymau pam na ddylai'r ddyletswydd gychwyn, neu pam y dylai'r ddyletswydd gychwyn yn hwyrach na mis Medi 2011; yn ail, a fyddai rheoliadau dan adran 22 Deddf 2010 yn angenrheidiol i ddiffinio'r ddyletswydd ar ysgolion ac awdurdodau lleol i ddarparu cymhorthion ategol. Gallai rheoliadau dan adran 22 wneud darpariaeth ar gyfer yr amgylchiadau pan fo'n rhesymol, neu pan na fo'n rhesymol, i ysgol/awdurdod lleol orfod cymryd rhai camau yn rhan o'r ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol, neu gallent egluro'r pethau y dylid eu hystyried a'r pethau na ddylid eu hystyried yn gymhorthion ategol.
6. Mae Deddf 2010 yn nodi y bydd un o Weinidogion Llywodraeth y DU yn gyfrifol am gychwyn y ddyletswydd newydd sy'n ymwneud â chymhorthion ategol, llunio unrhyw reoliadau dan adran 22 Deddf 2010 a chynnal unrhyw ymgynghoriad ynghylch y materion hyn yng nghyswllt Cymru. Fodd bynnag, mae Gweinidogion Cymru wedi cytuno i ymgynghori yng nghyswllt Cymru ar ran Gweinidog y DU dan adran 83(1) Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Deallir y bydd ymgynghoriadau'n cael

eu cynnal yn Lloegr a'r Alban ynghylch y cwestiynau a ofynnir yn yr ymgynghoriad hwn. Mae Llywodraeth y DU wedi cadarnhau y bydd ymatebion i'r ymgynghoriadau yng Nghymru, Lloegr a'r Alban yn cael eu hystyried wrth wneud penderfyniadau ynghylch y cwestiynau hyn. Gellid gwneud darpariaeth ar wahân ar gyfer cychwyn ac ar gyfer rheoliadau, yn dibynnu ar ganlyniad yr ymgynghoriad ym mhob awdurdodaeth.

Y ddyletswydd newydd i ddarparu cymhorthion a gwasanaethau ategol

I ba gyrff y mae'n berthnasol?

7. Mae'r ddyletswydd newydd yn berthnasol i awdurdodau lleol wrth gyflawni swyddogaethau dan y Deddfau Addysg, ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol, ysgolion meithrin a gynhelir gan awdurdodau lleol, ysgolion annibynnol, ac ysgolion arbennig nas cynhelir. (Mae'r ddyletswydd eisoes yn berthnasol i ddarparwyr gwasanaeth ac awdurdodau cyhoeddus eraill, gan gynnwys darparwyr ym maes y blynyddoedd cynnar nad ydynt yn rhan o ysgol a gynhelir.)

I ba blant y mae'r ddyletswydd yn berthnasol?

8. Mae'r ddyletswydd yn berthnasol i blant sy'n anabl yn ôl y diffiniad a roddir yn adran 6 Deddf 2010. Mae'r Ddeddf yn diffinio person anabl fel a ganlyn: person sydd â nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith andwyol sylweddol a hirdymor ar ei allu i gyflawni gweithgareddau o ddydd i ddydd. Nid yw'r ddyletswydd i ddarparu cymhorthion ategol fel addasiad rhesymol yn berthnasol i blant ag anghenion addysgol arbennig, nad ydynt yn bodloni'r diffiniad o anabledd a nodir yn y Ddeddf.

9. Mae'r ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol yn ddyletswydd ragflaenorol. Ystyr hynny yw ei bod yn berthnasol nid yn unig i ddisgyblion anabl sydd eisoes mewn ysgol ond hefyd i ddisgyblion anabl a allai gael eu derbyn yno yn y dyfodol. Nid yw hynny'n golygu bod yn rhaid i ysgolion ac awdurdodau lleol ragweld pob cymorth a gwasanaeth ategol posibl y gallai fod eu hangen ar ddisgyblion anabl ar hyn o bryd neu yn y dyfodol; yn hytrach, mae'n golygu y dylent ragweld y cymhorthion a'r gwasanaethau ategol y byddai'n rhesymol disgwyl y gallai fod arnynt eu hangen, er enghraifft, y gallu i argraffu testun yn fawr ar gyfer disgyblion â nam ar eu golwg neu'r gallu i ddarparu dolenni sain i blant sydd â nam ar eu clyw. Mae angen i ysgolion ac awdurdodau lleol fod yn ymwybodol o'r cymhorthion a'r gwasanaethau ategol y gallai fod eu hangen, ond ni fydd angen iddynt eu darparu cyn bod angen unigol yn cael ei nodi. Mae ddyletswydd eisoes ar ysgolion ac awdurdodau lleol i gynllunio i gynyddu mynediad i safleoedd a'r cwricwlwm, a ddyletswydd (sy'n cynnwys ddyletswydd ragflaenorol) i wneud addasiadau rhesymol yng nghyswllt darpariaethau, meini prawf neu arferion a allai olygu bod person anabl dan anfantais sylweddol.

Ym mha amgylchiadau y mae'r ddyletswydd yn berthnasol?

10. Yn ôl adran 20(5) Deddf 2010, mae'r ddyletswydd yn berthnasol *pe byddai person anabl, heb gymorth ategol, dan anfantais sylweddol yng nghyswllt mater perthnasol, o'i gymharu â phobl nad ydynt yn anabl*. Pan fo'r ddyletswydd yn

berthnasol, mae'n ofynnol i'r sawl y mae'r ddyletswydd yn berthnasol iddo *gymryd pa gamau bynnag y mae'n rhesymol iddo orfod eu cymryd i ddarparu'r cymorth ategol*. Felly, yng nghyd-destun ysgolion, nid oes dyletswydd ar ddarparwyr i ddarparu cymorth neu wasanaeth ategol i ddisgybl anabl os yr unig reswm dros wneud hynny yw'r ffaith y gallai fod o fudd i'r disgybl; yr unig bryd y bydd dyletswydd ar ddarparwyr i ddarparu cymorth neu wasanaeth ategol i ddisgybl anabl yw mewn sefyllfa lle byddai peidio â darparu'r cymorth neu'r gwasanaeth ategol yn golygu bod y disgybl dan *anfantais sylweddol* o'i gymharu â disgyblion nad ydynt yn anabl.

Beth yw cymhorthion a gwasanaethau ategol?

11. Ni cheir diffiniad cyfredol o gymhorthion a gwasanaethau ategol mewn deddfwriaeth. Ceir pŵer dan adran 22 Deddf 2010 i lunio rheoliadau i ddweud pa bethau y dylid eu hystyried a pha bethau na ddylid eu hystyried yn gymhorthion ategol (gweler paragraff 12 isod). Yn achos *Cyngor Sir Swydd Bedford v Dixon-Wilkinson* ([2009] EWCA Civ 678), dewisodd yr Arglwydd Ustus Wall beidio â mynegi barn am yr hyn a allai fod a'r hyn na allai fod yn *gymhorthion ac yn wasanaethau ategol*, ond cyfeiriodd at y diffiniad o'r gair 'ategol' ('auxiliary' yn Saesneg) a geir yn yr Oxford English Dictionary, sef "helpful, assistant, affording aid, rendering assistance, giving support or succour". Yn yr un modd, yn achos *K v Yr Ysgol a'r Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd* ([2007] EWCA Civ 165), dywedodd yr Arglwydd Ustus Wall fod cymhorthion a gwasanaethau ategol *yn bethau neu'n bobl sy'n helpu*, a chyfeiriodd at God Ymarfer yr hen Gomisiwn Hawliau Anabledd ar gyfer Ysgolion (2002) a oedd yn nodi bod plentyn â nam ar ei glyw yr oedd athro teithiol i blant byddar yn ymweld ag ef ddwywaith yr wythnos yn enghraifft, a bod defnyddio system FM bersonol (cymorth radio) yn enghraifft o gymorth neu wasanaeth ategol.

12. Nid yw'r ddyletswydd sy'n ymwneud â chymhorthion ategol dan Ddeddf 2010 yn cynnwys dyletswydd i symud neu addasu nodweddion ffisegol. Mae'r ddyletswydd i symud neu addasu nodweddion ffisegol yn ddyletswydd ar wahân i wneud addasiadau rhesymol (y cyfeirir ati yn y Ddeddf fel yr *ail ofyniad*) nad yw'n berthnasol i ysgolion neu awdurdodau lleol wrth gyflawni eu swyddogaethau dan y Deddfau Addysg, gan fod yn rhaid fel arall i ysgolion ac awdurdodau lleol gynllunio i gynyddu mynediad i safleoedd ysgolion a'r cwricwlwm.

Beth yw rhesymol wrth wneud addasiadau rhesymol?

13. Nid oes diffiniad cyfreithiol amlwg ar gael o gymhorthion a gwasanaethau ategol, ac yn yr un modd nid oes diffiniad amlwg yn y gyfraith o'r hyn sy'n *rhesymol* wrth wneud addasiadau rhesymol. Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol eisoes wedi cyhoeddi canllawiau anstatudol i ysgolion, ac mae wrthi'n ymgynghori ynghylch fersiwn wedi'i diweddarau o'i god ymarfer statudol i ysgolion. Bydd y cod statudol yn rhoi cyngor ynghylch beth yw cymhorthion a gwasanaethau ategol yng nghyd-destun ysgolion, a phryd y byddai'n rhesymol gorfod gwneud addasiadau.

14. Fel y soniwyd ym mharagraff 11, mae gan un o Weinidogion Llywodraeth y DU y pŵer i lunio rheoliadau dan adran 22 Deddf 2010 yng nghyswllt y dyletswyddau i wneud addasiadau rhesymol. Gallai rheoliadau a lunnir dan y pŵer hwn ddarparu ar gyfer y canlynol:

- y materion y dylid eu hystyried wrth benderfynu a yw'n *rhesymol* i berson orfod cymryd cam penodol;
- yr amgylchiadau lle mae'n rhesymol neu lle nad yw'n rhesymol i berson (megis ysgol neu awdurdod lleol) orfod cymryd camau sy'n cyfateb i ddisgrifiad penodol; neu
- y pethau y dylid eu hystyried neu na ddylid eu hystyried yn gymhorthion ategol.

15. Roedd y pŵer i lunio rheoliadau yn bodoli hefyd dan y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd, ond hyd yma nid oes unrhyw reoliadau wedi'u llunio. Mae darparwyr gwasanaeth eraill y mae'r ddyletswydd sy'n ymwneud â chymhorthion ategol yn berthnasol iddynt eisoes, megis darparwyr ym maes y blynyddoedd cynnar a darparwyr addysg bellach ac addysg uwch, wedi medru bodloni'r ddyletswydd heb fod angen rheoliadau i ddiffinio beth yw cymhorthion a gwasanaethau ategol neu beth sy'n rhesymol. Barn Llywodraeth y DU yw na ddylai fod yn angenrheidiol llunio rheoliadau ar gyfer y modd y dylai'r ddyletswydd sy'n ymwneud â chymhorthion ategol fod yn berthnasol i ysgolion ac awdurdodau lleol. Yn ogystal, mae Llywodraeth y DU o'r farn y byddai'n anodd llunio rheoliadau a fyddai'n rhestru cymhorthion a gwasanaethau ategol, oherwydd byddai'n rhaid diwygio'r rheoliadau i adlewyrchu cymhorthion a gwasanaethau newydd wrth iddynt ddod ar gael. Fodd bynnag, mae Llywodraeth y DU yn awyddus i gael barn pobl eraill am y mater. Pe na byddai rheoliadau'n cael eu llunio adeg cychwyn y ddyletswydd sy'n ymwneud â chymhorthion a gwasanaethau ategol, byddai cyfle o hyd i lunio rheoliadau yn nes ymlaen pe gwelid bod hynny'n angenrheidiol, er enghraifft, er mwyn mynd i'r afael â materion penodol. Gweler **Cwestiwn 2**.

Beth fydd y berthynas rhwng y ddyletswydd sy'n ymwneud â chymhorthion a gwasanaethau ategol a dyletswyddau ysgolion ac awdurdodau lleol o ran anghenion addysgol arbennig dan Ran IV Deddf Addysg 1996?

16. Amcangyfrifwyd nad oes AAA¹ penodol gan chwarter y plant y nodwyd eu bod yn anabl dan y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd; felly mae gan y tri chwarter sy'n weddill AAA. O ganlyniad ceir cryn dipyn o orgyffwrdd, ond nid cydberthynas absoliwt, rhwng plant anabl a phlant ag AAA. Mae dyletswyddau eisoes ar awdurdodau lleol ac ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol i adnabod a diwallu anghenion addysgol arbennig disgyblion dan Ran IV Deddf Addysg 1996. Mae dyletswydd eisoes ar ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol i wneud eu gorau glas i sicrhau'r ddarpariaeth addysgol arbennig y mae anawsterau dysgu plentyn yn galw amdanynt. Mae dyletswydd ar awdurdodau lleol, lle bo'n angenrheidiol, i asesu AAA plant a llunio datganiadau AAA sy'n egluro AAA y plentyn a'r ddarpariaeth addysgol arbennig a gynigir i ddiwallu anghenion y plentyn hwnnw. Mae'r canllawiau statudol yn y Cod Ymarfer AAA yn argymhell dull graddedig o ddiwallu anghenion plant, sef "Gweithredu gan yr Ysgol" lle caiff anghenion y plentyn eu diwallu drwy'r adnoddau sydd ar gael fel rheol i'r ysgol, "Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy" lle gallai'r ysgol gael rhywfaint o help o'r tu allan, a datganiadau.

¹ Porter, J., Daniels, H., Georgeson, J., Hacker, J., Gallop, V., Feiler, A., Tarleton, B., Watson, D. (2008) *Disability data collection for children's services*.

17. Pe na byddai'n rhesymol disgwyl i ysgol brif ffrwd a gynhelir ddiwallu anghenion plentyn o'i hadnoddau arferol, hyd yn oed gyda rhywfaint o help o'r tu allan drwy Weithredu gan yr Ysgol a Mwy, gallai hynny fod yn arwydd o'r ffaith y gallai fod angen asesiad statudol a datganiad ar y plentyn. Mae Atodlen 2 Rheoliadau Addysg (Anghenion Addysgol Arbennig) (Cymru) 2002² yn egluro'r ffurf sy'n orfodol ar gyfer datganiad AAA. Yn Rhan 3 y datganiad, rhaid i'r awdurdod lleol nodi'r ddarpariaeth addysgol arbennig sy'n briodol yn ei farn ef i ddiwallu AAA y plentyn, ac yn anad dim rhaid iddo nodi "unrhyw gyfleusterau ac offer priodol, trefniadau staffio a chwricwlwm priodol" sy'n ofynnol. Mae Llywodraeth y DU wedi awgrymu y byddai'n disgwyl i unrhyw gymhorthion a gwasanaethau ategol y mae eu hangen ar blentyn, ac na ellid disgwyl i ysgol brif ffrwd a gynhelir eu darparu o'i hadnoddau arferol, fod wedi'u nodi yn natganiad plentyn, ac na fyddai disgwyl i ysgol ddarparu'r rhain fel arall drwy'r ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol i ddarparu cymhorthion a gwasanaethau ategol dan Ddeddf 2010. Yn ogystal, cred Llywodraeth y DU y bydd y mwyafrif helaeth o blant y mae angen cymhorthion a gwasanaethau ategol arnynt yn eu cael eisoes drwy ddatganiadau AAA, a'i bod felly'n debygol bod pethau y gallai fod ar ddisgyblion anabl eu hangen, a fyddai fel arall yn perthyn i'r ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol sy'n ymwneud â chymhorthion ategol, yn cael eu darparu eisoes i raddau helaeth drwy'r llwybr AAA.

18. Bwriad y gofyniad newydd i ysgolion ac awdurdodau lleol ddarparu cymhorthion ategol yw sicrhau na fyddai unrhyw berson anabl dan anfantais sylweddol pe na byddai'r ddyletswydd hon yn bodoli, er enghraifft, plant anabl nad oes ganddynt ddatganiadau AAA. Fodd bynnag, cred Llywodraeth y DU y bydd llawer o ysgolion eisoes yn gwneud addasiadau rhesymol i ddarparu cymhorthion a gwasanaethau ategol ar gyfer y plant anabl hyn.

Pryd y bydd y ddyletswydd yn un sy'n berthnasol i ysgol a gynhelir a phryd y bydd yn berthnasol i'r awdurdod lleol?

19. Mae'r ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol i ddarparu cymhorthion a gwasanaethau ategol yn berthnasol i ysgolion ac i'r awdurdodau lleol sy'n eu cynnal. (Ar gyfer ysgolion nas cynhelir, gweler paragraff 21 isod.) Mae modd i rywbeth y gallai fod yn afresymol i ysgol ei ddarparu fod yn rhywbeth y byddai'n rhesymol i awdurdod lleol ei ddarparu wrth gyflawni ei swyddogaethau dan y Deddfau Addysg. Fodd bynnag, ni ddylid tybio ar unrhyw gyfrif y byddai'n rhesymol i awdurdod lleol ddarparu cymorth neu wasanaeth ategol pe byddai'n afresymol i ysgol ei ddarparu, er enghraifft, am resymau'n ymwneud â chost. Byddai'r penderfyniad yn dibynnu ar ffeithiau pob achos unigol, ac nid oes modd rhoi canllawiau penodol ynghylch y mater. Fodd bynnag, gallai fod yn bosibl i awdurdodau lleol a'r ysgolion y maent yn eu cynnal lunio cytundebau'n lleol ynghylch pryd y byddai'n rhesymol disgwyl i ysgol ddarparu'r cymorth neu'r gwasanaeth ategol a phryd y byddai'n rhesymol i'r awdurdod lleol wneud hynny. Mae gan rai awdurdodau lleol gytundebau â'u hysgolion eisoes ynghylch darparu offer, sy'n cynnwys trothwyau o ran cost, lle bydd yr awdurdod lleol yn talu am unrhyw offer y mae eu cost yn uwch na'r trothwyau hynny. Efallai yr hoffai awdurdodau lleol lunio cytundebau sy'n ymdrin â chymhorthion a gwasanaethau ategol yn fwy cyffredinol.

² O.S. 2002/152.

20. Bydd natur y cymorth neu'r gwasanaeth a threfniadau lleol yn helpu i benderfynu beth y byddai'n **rhesymol** i'r ysgol neu'r awdurdod lleol ei ddarparu. Er enghraifft, mewn sefyllfa lle ceir gwasanaeth a drefnir yn ganolog ar gyfer nam ar y golwg neu'r clyw, gallai fod yn rhesymol disgwyl i'r awdurdod lleol ddarparu cymhorthion neu gefnogaeth ddrutach drwy'r gwasanaethau hynny, ond nad yw'n rhesymol i'r ysgol orfod eu darparu. Gan gyfeirio at baragraffau 16 i 18 uchod, gallai fod gan y plentyn dan sylw ddatganiad AAA eisoes, neu efallai y bydd asesiad AAA statudol yn cael ei gynnal ac y bydd gan y plentyn ddatganiad yn y dyfodol, a fydd yn darparu mynediad i'r prif gymhorthion a'r prif wasanaethau ategol y mae ar y plentyn eu hangen, ac na fydd yn rhaid wedyn i'r ysgol ddarparu gwasanaethau pellach dan y ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol.

Sut y mae'r ddyletswydd sy'n ymwneud â chymhorthion ategol yn effeithio ar ysgolion annibynnol ac ysgolion arbennig nas cynhelir?

21. Mae'r ddyletswydd newydd i wneud addasiadau rhesymol i ddarparu cymhorthion a gwasanaethau ategol yn berthnasol i ysgolion annibynnol, gan gynnwys ysgolion arbennig nas cynhelir. Nid yw'r ysgolion hyn yn yr un sefyllfa ag ysgolion a gynhelir gan nad yw gwasanaethau cymorth yr awdurdod lleol ar gael iddynt fel mater o drefn. Fodd bynnag mae'r ddyletswydd sydd ar awdurdod lleol, lle bo'n angenrheidiol, i asesu a llunio datganiadau AAA yn berthnasol i bob plentyn o'i ardal, ni waeth a yw'r plentyn yn cael ei addysg yn y sector a gynhelir ynteu'r sector nas cynhelir. Gall awdurdodau lleol roi plant â datganiadau mewn ysgolion annibynnol a gaiff eu trefnu'n arbennig i gynnig darpariaeth ar gyfer plant ag AAA, neu mewn ysgolion arbennig nas cynhelir, a hynny'n benodol er mwyn sicrhau bod plant yn cael mynediad i'r cymhorthion neu'r gwasanaethau arbenigol y gall ysgolion o'r fath eu darparu. Felly, mae'n annhebygol y byddai angen cymhorthion neu wasanaethau ategol ychwanegol yn rhesymol ar gyfer y plant hyn, oherwydd mae'n debygol y bydd ganddynt fynediad eisoes i'r cymhorthion sy'n angenrheidiol i'w helpu i oresgyn unrhyw anfantais sylweddol sy'n deillio o'u hanabledd. Mewn sefyllfaoedd lle mae plant anabl sydd heb ddatganiadau, y mae angen cymhorthion a gwasanaethau ategol arnynt i'w hatal rhag dioddef anfantais sylweddol, mewn ysgolion annibynnol *prif ffrwd*, bydd angen i'r ysgolion hynny ystyried a fyddai'n rhesymol darparu'r cymhorthion neu'r gwasanaethau. Os byddant yn ystyried na fyddai'n rhesymol, efallai yr hoffent hwy neu rieni'r plentyn dan sylw ofyn am asesiad statudol AAA gan yr awdurdod lleol perthnasol gyda'r bwriad o roi datganiad AAA i'r plentyn, a fyddai'n nodi'r cymhorthion neu'r gwasanaethau ategol y gallai fod eu hangen arno.

Beth fydd y baich tebygol ar ysgolion ac awdurdodau lleol o ganlyniad i'r ddyletswydd newydd sy'n ymwneud â chymhorthion ategol?

22. Pan gysylltwyd ag awdurdodau lleol yn Lloegr ac arbenigwyr ym maes anabledd adeg cynnig y diwygiadau i'r Mesur Cydraddoldeb (er mwyn ehangu'r ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol i ysgolion ac awdurdodau lleol) nid oedd pawb o'r un farn. Teimlai llawer na fyddai'r ddyletswydd hon yn arwain at faich newydd sylweddol ar ysgolion ac awdurdodau lleol, gan fod plant anabl yr oedd angen cymhorthion a gwasanaethau ategol arnynt yn eu cael eisoes yn gyffredinol, drwy'r fframwaith AAA yn bennaf. Fodd bynnag, ceid barn arall y gallai'r ddyletswydd newydd olygu bod ysgolion ac awdurdodau lleol yn gyfrifol am ddarparu ystod eang

o gymhorthion a gwasanaethau, gan gynnwys cymhorthion a gwasanaethau a ddylai gael eu darparu fel arall gan asiantaethau statudol. Fel y soniwyd ym mharagraff 13, bydd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn llunio cod ymarfer statudol a chanllawiau anstatudol i ysgolion, a fydd yn rhoi enghreifftiau o'r adegau pan fydd yn debygol y byddai'n rhesymol i ysgol neu awdurdod lleol ddarparu cymorth neu wasanaeth ategol. Rhaid i ysgolion ac awdurdodau lleol barchu'r Cod statudol.

23. Bydd y Cod yn rhoi barn am beth yw cymorth neu wasanaeth ategol yng nghyd-destun ysgolion a phryd y byddai'n rhesymol i ysgol gymryd camau i ddarparu cymorth neu wasanaeth. Ffeithiau pob achos unigol fydd yn penderfynu a fydd ysgolion ac awdurdodau lleol dan ddyletswydd i ddarparu cymhorthion a gwasanaethau ategol. Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru fydd yn penderfynu beth sy'n rhesymol mewn unrhyw achos penodol os bydd anghydfod ynghylch gwahaniaethu ar sail anabledd gerbron y Tribiwnlys ac os yw'r awdurdod lleol neu'r ysgol yng Nghymru.

24. Yn y fan hon mae'n werth atgoffa darllenwyr o natur y ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol sy'n ymwneud â chymhorthion ategol. Mae'n berthnasol i ddisgyblion sy'n bobl anabl yn ôl y diffiniad a geir yn Neddf 2010. Rhaid y byddai'r disgyblion hynny, heb gymorth neu wasanaeth ategol, dan *anfantais sylweddol* o'u cymharu â disgyblion nad ydynt yn anabl. Yn olaf, rhaid ei bod yn rhesymol i ysgolion ac awdurdodau lleol gymryd camau i osgoi'r anfantais honno drwy ddarparu cymorth neu wasanaeth ategol. Byddai'n rhaid ystyried nifer o ffactorau, gan gynnwys cost, effeithiolrwydd ac effaith ar yr anabledd, wrth benderfynu a yw'n rhesymol cymryd camau o'r fath.

Ble y gall rhieni geisio iawn os byddant yn teimlo bod ysgol neu awdurdod lleol wedi methu cyflawni ei dyletswydd/ei ddyletswydd i gymryd camau rhesymol i ddarparu cymorth neu wasanaeth ategol?

25. O'r dyddiad y daw'r ddyletswydd i rym, bydd Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru yn gwrandao ar honiadau ynghylch gwahaniaethu ar sail anabledd yng Nghymru, os yw'r ymatebydd yn ysgol neu'n awdurdod lleol.

Pryd y dylai'r ddyletswydd gychwyn?

26. Mae Llywodraeth y DU yn ymwybodol o bryderon a allai fod gan rai ysgolion ac awdurdodau lleol ynghylch goblygiadau'r ddyletswydd newydd, ac y gallai fod yn well ganddynt gael rhagor o amser i baratoi ar gyfer ei chychwyn. Fodd bynnag, o gofio'r hyn a ddywedir yn y ddogfen ymgynghori hon am y gydberthynas rhwng y ddyletswydd newydd a dyletswyddau cyfredol ysgolion ac awdurdodau lleol dan y fframwaith AAA, a therfynau'r ddyletswydd newydd, cred Llywodraeth y DU y byddai mis Medi 2012 yn ddyddiad cychwyn rhesymol ledled Cymru, Lloegr a'r Alban.
Gweler Cwestiwn 1.

Pan fydd y ddyletswydd sy'n ymwneud â chymhorthion a gwasanaethau ategol yn cychwyn

27. Roedd paragraffau 14 ac 15 yn esbonio y ceir pŵer i lunio rheoliadau ynghylch cymhorthion a gwasanaethau ategol, a phryd y byddai'n rhesymol eu darparu. Gellid cyflwyno rheoliadau pan ddaw'r ddyletswydd newydd i rym, gellid eu cyflwyno ar ôl y dyddiad hwnnw yng ngoleuni profiad ysgolion ac awdurdodau lleol o'r ddyletswydd newydd, neu gellid penderfynu peidio â llunio rheoliadau.

Gweler Cwestiwn 2.

28. Fel y soniwyd ym mharagraff 3, mae gennym ddiddordeb hefyd mewn cael rhagor o wybodaeth am amgylchiadau plant ac am nifer y plant a allai fod yn methu â chael cymhorthion a gwasanaethau ategol ar hyn o bryd am nad yw'n ofynnol i ysgolion ac awdurdodau lleol ddarparu cymhorthion ategol, wrth gyflawni eu swyddogaethau ym maes addysg. Er ein bod yn ymwybodol bod rhai plant anabl nad oes ganddynt AAA, neu y gallai fod angen addasiadau rhesymol arnynt nad ydynt yn gysylltiedig â'u AAA, nid ydym yn gwybod yn iawn pa gymhorthion a gwasanaethau ategol ychwanegol y gallai fod eu hangen ar y plant anabl hyn ar wahân i'r cymhorthion a'r gwasanaethau y gallai ysgol fod yn eu darparu ar hyn o bryd beth bynnag, naill ai drwy addasiadau ar sail *synnwyr cyffredin*, neu drwy ddarpariaeth AAA (gan gynnwys Gweithredu gan yr Ysgol, Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy a datganiadau). **Gweler Cwestiwn 3.**